

Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2015 tan fis Mai 2016 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Edward Thomas	Adran Etholiadol: Llandeilo
------------------------------------	------------------------------------

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau		
<i>Pwyllgorau'r Cyngor</i>	<i>Cofnod Presenoldeb</i>	
	Nifer	Yn bresennol
Y Cyngor Sir	14	14
Y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	6	4
Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau (Is-Gadeirydd)	7	6
Pwyllgor ar y Cyd – Craffu Cymunedau a Chynllunio	2	2
Pwyllgor ar y Cyd – Craffu Cymunedau a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	1	1
Y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau		2*
Archwilio	5	5
Y Pwyllgor Penodi Aelodau		2*
*Mynychu fel eilydd		

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth
<p>Rwy'n cynnal cymorthfeydd cyson, fel arfer ar ddydd Iau cyntaf y mis, yn Llandeilo a Llandyfân ond rwyf hefyd yn galw yng Nghanolfan Gymunedol Trap ar y ffordd i Landyfân er mwyn cwrdd ag etholwyr. Rwy'n hawdd siarad ag ef ac mae croeso i etholwyr ddod i drafod unrhyw beth gyda mi. Yn ogystal â'r gymhorthfa gyson yn yr etholaeth, rwyf wedi ymateb i gais gan breswylwyr Tai Gwarchod Maes Elfryn ac rwyf wedi dechrau cymhorthfa fisol yno hefyd.</p> <p>Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Cymuned Dyffryn Cennen ac rwy'n adrodd yn ôl ym mhob cyfarfod, yn ymateb i unrhyw ymholiadau ac yn ceisio datrys unrhyw broblemau. Yn ogystal rwy'n mynychu Cyngor Tref Llandeilo ac yn cynrychioli Ward Tywi ond yn rhinwedd fy swydd fel Cynghorydd Sir, rwy'n dosbarthu adroddiad ysgrifenedig ac yn ateb unrhyw ymholiadau. Rwy'n delio'n brydlon ag ymholiadau gan ddefnyddio'r Uned Gwasanaethau Democrataidd. Rwy'n aelod o nifer o Is-grwpiau y Cyngor Tref ac rwy'n sylwedydd ar Bwyllgor Gŵyl y Synhwyrâu.</p> <p>Rwyf wedi llwyddo i berswadio SWTRA i osod goleuadau LED ychwanegol ar y Golau Belisha ond nid wyf yn fodlon o hyd fod hyn yn ddigonol a byddaf yn parhau i bwysu am groesfan Pâl.</p>

Rwy'n mynychu cynifer o ddigwyddiadau ag sy'n bosibl yn y Ward ac rwy'n ceisio cefnogi cyngherddau a digwyddiadau cymdeithasol. Rwy'n gwneud ymdrech fawr i gefnogi gemau cartref Clwb Rygbi Llandeilo a Chlwb Pêl-droed Llandeilo. Rwy'n aelod o nifer o gymdeithasau yn yr ardal gan gynnwys Gefeillio Trefi, Cyn Aelodau'r Ford Gron a'r Ymddiriedolaeth Ddinesig.

Adran 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion

<i>Rhestr o Gyrrff Llywodraethu Ysgolion</i>	<i>Cofnod Presenoldeb</i>	
	Nifer	Yn bresennol
Ysgol Gynradd Llandeilo	4	4
Ysgol Bro Dinefwr	2	3

Adran 4: Cynrychiolaeth Cyrff Allanol

<i>Rhestr o gyrrff allanol</i>	<i>Cofnod Presenoldeb</i>	
	Nifer	Yn bresennol
Rhianta Corfforaethol	1	
Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	12	12
Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru	1	1

Adran 5: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu amrywiol gyrsiau hyfforddiant mewnol a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin sy'n cynnwys Diogelu, Cydraddoldeb ac Arallgyfeirio, Hyfforddiant TG, Strategaeth Gorfforaethol gan gynnwys seminarau ynghylch y gyllideb.

O ran fy aelodaeth o Gyrrff Llywodraethu Ysgolion, rwyf wedi mynychu 2 sesiwn hyfforddiant gorfodol.

Rwyf wedi mynychu Hyfforddiant y Wasg a'r Cyfryngau Bwrdd Pensiwn Lleol Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a ddarparwyd gan ymgynghorwyr allanol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac amrywiol gyfarfodydd diweddarau ynghylch Strategaeth y Gyllideb.

Eleni, cefais fy newis gan Gyngor Sir Caerfyrddin i fynychu Gweithdai Academi Arweinyddiaeth a gynhaliwyd dros 3 phenwythnos o fis Tachwedd 2015 tan fis Ionawr 2016. Cafodd y rhain eu gweithredu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ac Academi Cymru ac roedden nhw'n ddiddorol iawn ac wedi rhoi boddhad i mi.

Adran 6: Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n gweithio gyda swyddogion i ddod o hyd i ateb ar gyfer y cyfleusterau chwaraeon yn Nhre-gib. Ar ôl i'r ysgol symud allan ym mis Gorffennaf, nid oes unrhyw system ar waith o ran cadw'r caeau chwarae a'r cawodydd ac ati ar gyfer y clybiau niferus sy'n defnyddio'r caeau. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n rhaid dod o hyd i ateb.

Rwy'n gadeirydd ar Gymdeithas Chwaraeon Llandeilo a'r Cylch sydd newydd ei ffurfio. Rydym wedi cwrdd sawl gwaith ac mae'n ffordd wych i'r clybiau a'r cymdeithasau gyfathrebu / cael hunangymorth.

Rwy'n dal i ymgyrchu dros gael ffordd osgoi er mwyn lleihau'r tagfeydd traffig yn Llandeilo a hefyd y lefelau uchel o nitrogen deuocsid yng nghanol y dref. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys Llandeilo yn y Cynllun Trafnidiaeth ond rwy'n amau y bydd arian yn cael ei ddargyfeirio i'r gwaith o ymestyn yr M4 o amgylch Casnewydd.

Mae parcio yn dal i fod yn broblem fawr ac rwy'n ceisio ymgysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y syniad o ddarparu llefydd parcio ychwanegol ond byddai angen cyllid cyfalaf. Mae angen rhagor o lefydd parcio yn Llandeilo.

Mae'r cynlluniau ar gyfer Neuadd y Farchnad yn mynd yn eu blaen a bydd angen cyllid grant ond gobeithio mewn 2/3 blynedd, bydd yr adeilad eiconig Gradd 2 hwn yn adfywio'r rhan honno o'r Dref. Rwyf wedi darparu cymorth i Grŵp Rheoli Neuadd Gyhoeddus a Sefydliad Llenyddol Llandeilo, sy'n ceisio achub yr hen adeilad hwn.

Mae'r Cyngor Tref yn symud ymlaen â Throsglwyddo Asedau ac rwy'n Gadeirydd ar yr is-grŵp hwn. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar ac roedd y cyhoedd yn gryf iawn o blaid. Bydd y Cyngor Tref yn gwneud ei benderfyniad terfynol cyn bo hir a gobeithio erbyn 2017, y gall y parciau hyn gael eu dychwelyd i ofal pobl Llandeilo unwaith eto.

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio gyda swyddogion a Chynghorwyr Sir cyfagos yn ardal Llandybïe ar gynllun diogelwch ffyrdd o Dderwydd i Landyfân a gobeithio erbyn diwedd 2016 y bydd y cynllun ar waith ac yn gwella diogelwch ffyrdd. Mae'r problemau o ran danfoniadau Brecon Carreg wedi cael eu datrys gyda chryn gydweithrediad gan y cwmni a'i dosbarthwyr.

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: E G Thomas

Dyddiad: 25/05/16